



## Gweinyddu Meddyginiaeth yn Ddiogel Lefel 2 (Cyflwyniad Ar-lein)

<b>Cynlluniwyd ar gyfer</b>	Yr holl staff gofal cymdeithasol sy'n gyfrifol am archebu, gweinyddu a rheoli meddyginiaeth. Byddai hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau cartrefi gofal, gofal yn y cartref, gwasanaethau dydd ac ati.
<b>Nod y Cwrs</b>	Darparu'r wybodaeth sylfaenol a chymhwyster achrededig i gynrychiolwyr allu rheoli a gweinyddu meddyginiaeth yn ddiogel i'r bobl y maent yn eu cefnogi.
<b>Amlinelliad o'r Cwrs</b>	<p>Bydd y cwrs hwn yn cwmpasu:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Aseiad llythrennedd a rhifedd (a chymorth os oes angen)</li> <li>• Deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau cenedlaethol</li> <li>• Polisiâu a Gweithdrefnau</li> <li>• Rolau, cyfrifoldebau a ffiniau</li> <li>• Asesu Risg</li> <li>• Hybu annibyniaeth</li> <li>• Cofnodion Rhoi Meddyginiaethau (MAR)</li> <li>• Storio meddyginiaeth</li> <li>• Gwaredu meddyginiaeth</li> <li>• Mathau o feddyginiaeth a llwybrau</li> <li>• Arferion Diogel wrth roi meddyginiaethau</li> <li>• Paratoi meddyginiaethau</li> <li>• Camgymeriadau meddyginiaeth a sut i'w hosgoi</li> <li>• Archwilio a rheoli stoc</li> </ul> <p>Bydd y cwrs hwn yn cynnwys arholiad aml-ddewis (marc pasio yw 23/20). Caiff hwn ei e-bostio at gynrychiolwyr ar ôl i'r cwrs ddod i ben a rhaid ei gyflwyno i'r hyfforddwr o fewn 24 awr ar ôl i'r cwrs ddod i ben er mwyn ennill tystysgrif.</p> <p>Bydd y cynrychiolwyr yn derbyn tystysgrif gan <i>Highfield Awarding Body of Compliance</i> ar gyfer Dyfarniad Lefel 2 mewn Egwyddorion Gweinyddu Meddyginiaeth yn Ddiogel. Nid oes dyddiad dod i ben ar hyn ond argymhellir bod y cynrychiolwyr yn cynnal hyfforddiant gloywi o leiaf unwaith bob 2 flynedd i gadw i fyny â'r arfer cyfredol.</p>
<b>Iaith</b>	English
<b>Cost i fynychwyr allanol</b>	Am ddim
<b>Arweinydd y Cwrs</b>	<p>Tim Dallinger, Social Care Consultants Ltd</p> <p>Mae Tim yn hyfforddwr gofal cymdeithasol profiadol sy'n darparu hyfforddiant mewn dros 100 o bynciau. Mae Tim yn darparu hyfforddiant i'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae wedi gweithio gyda Cyngor Sir Penfro ers blynnyddoedd lawer. Mae Tim hefyd yn ddarparwr gofal yng Nghymru ac mae ganddo 34 o flynyddoedd o brofiad yn y sector gofal.</p>
<b>Dull cyflwyno</b>	Ystafell Ddosbarth Rhithiol Ar-lein - Bydd cyfarwyddiadau ymuno yn cael eu darparu gyda chadarnhad o'ch lle. Cyflwynir y sesiwn ar Zoom. Efallai y bydd angen i chi lawrlwytho'r ap Zoom (darperir cyfarwyddiadau) a chreu cyfrif (am ddim). Gallwch gyrchu'r hyfforddiant ar unrhyw ddyfais er bod gliniadur neu dabled yn cael ei argymhell. <b>Bydd angen dyfais gyda meicroffon a seinyddion (mae</b>

## Gweinyddu Meddyginiaeth yn Ddiogel Lefel 2 (Cyflwyniad Ar-lein)

	<b>clustffonau'n gweithio'n dda).</b> Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys cyflwyniad wedi'i hwyluso gydag ymarferion grŵp. Mae'r cwrs wedi'i gynllunio i fod yn rhyngweithiol.
	9.30 a.m. tan 3.00 pm - sesiwn wedi'i haddysgu (gydag egwyl y bore am 11.00 tan 11.15 a seibiant amser cinio o 12.30 tan 3.15)  Noder: Rhaid i'r dysgwyr fewngofnodi cyn amser dechrau'r cwrs. Bydd cyfarwyddiadau mynediad yn cael eu hanfon at ddysgwyr drwy e-bost am 9.00am ar ddiwrnod y cwrs. Bydd hefyd amser ychwanegol i'r dysgwyr gwblhau'r asesiad aml-ddewis a'i ddychwelyd at yr hyfforddwr i'w farcio. Bydd hyn yn cymryd tua 20-30 munud.
	I'w drefnu